# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 11/12/2018 Siop Siarad am 7yh

**<u>Presennol</u>**

Catrin Roberts (Cad.), Gruffydd Williams, Sian Hughes, Bleddyn Evans, Sharon Williams, Glenda Rice, Janice Evans, Arfon Hughes, Lleucu Jones, Carys Roberts, Mared Llywelyn, Guto Williams, Rhian Hughes-Jones (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Gwynfor Jones a Rhys Tudur.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio; Aelod o Bwyllgor Cynllunio.
   Mared Llywelyn Williams – Llyfrgell; Gweithio yn y Llyfrgell

3. **Cofnodion 11/09/2018, Is-bwyllgor Gweithgareddau 18/10/2018, Is-bwyllgor Ariannol (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi eu derbyn yn gywir

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim

5. **Sedd wag**
   Yn dilyn hysbysebu sedd wag Edern a Morfa Nefyn mae’r Cyngor Tref wedi derbyn tri chais yn Forfa Nefyn ac un cais yn Edern. Gyrrwyd hysbysiad i’r ymgeiswyr i fynychu’r cyfarfod fel aelod o’r cyhoedd os dymunir ond ni fydd gyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth. Yn sgil hyn mae Mared Llywelyn Williams yn bresennol ac yn anffodus mae un ohebiaeth wedi ei dderbyn yn nodi bod un o’r ymgeiswyr wedi tynnu yn ôl.
   Bu i Catrin Roberts Is-gadeirydd ddarllen yr holl lythyrau ymgeisio i’r aelodau a oedd eisoes wedi derbyn copïau o’r rhain.
   Penderfynwyd trafod sedd Edern yn gyntaf. Mae Gruffydd Williams yn nodi y gellir aelodau gynrychioli unrhyw ardal er nad yw’n byw ynddo felly gellir rhoi cyfle i’r tri ymgeisydd drio am y ddwy sedd. Nodwyd bod ymgeisydd sydd yn byw yn Edern wedi trio am y sedd ac yn gymwys yw llenwi, ac felly o rhan tegwch dylid ystyried yr ymgeisydd yma i’r sedd wag yn Edern. Mae Guto Williams (Eilydd - Sian Hughes) yn cynnig Caren Jones i sedd Edern. Mae’r cynnig yn llwyddiannus.
   Mae’r pwyllgor yn gytûn ein bod yn lwcus iawn i dderbyn dau gais gan unigolion brwdfrydig a chymwys. Mae Gruffydd Williams yn cynnig (Eilydd - Sharon Williams) y sedd i Mared Llywelyn Williams gan ei fod yn ei adnabod fel gweithiwr brwdfrydig dibynadwy, mae’r cynnig yn llwyddiannus.
   Nodwyd bod y Cyngor Tref yn ddiolchgar iawn am yr holl ymgeiswyr ac yn annog y rhai sydd wedi trio i drio eto yn y dyfodol pan mae yna sedd wag.

6. **Gwasanaethau Ieuenctid**
   Angen eglurhad cadarnhaol o gofnodion yr is bwyllgor, nodwyd;
   “Catrin Thomas wedi cadarnhau mai oddi fewn i’r adeilad yn unig y mae cyfrifoldeb y clwb am y plant sy’n mynychu a bod unrhyw ddigwyddiadau gwrthgymdeithasol sy’n digwydd tu allan i’r adeilad yn fater i’r heddlu.”
   Bu i’r pwyllgor gytuno i Gruffydd Williams yrru'r holl wybodaeth i’r Clerc er gwyro. Mae hyn angen bod yn hollol eglur wrth fynd ymlaen.
   Nodwyd ei fod yn syniad da iawn i gael aelodau o’r Clwb Ieuenctid ar Is-bwyllgor Clwb Ieuenctid. Bydd hyn yn rhoi cyfrifoldeb ac yn eu hannog i gymryd perchnogaeth o’r Clwb. Cytunwyd fod hyn yn fater i’r Is-bwyllgor drafod.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

Mae'r Clerc wedi trafod gyda'r cwmni yswiriant a nodwyd bod angen manylder helaeth arnynt. Cytunwyd Bleddyn Evans i holi Pwyllgor y Ganolfan i gael copi o'r hyn sydd angen eu hyswirio yn y ganolfan i'r Clerc weithredu.
Nodwyd unwaith eto gan y Clerc y bydd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn y gellir ei osod ar y presept, nid oedd cynigydd i hyn.

**7. Awdit**

Mae'r adroddiad terfynol wedi ei dderbyn gan y BDO. Mae yna nifer o bwyntiau lle mae'r Cyngor Tref wedi methu:

- Nid yw'r wefan yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol – Plaid yr aelodau (os oes un)
- Cyfrifon heb gael eu cymeradwyo gan y cyngor erbyn 30 Mehefin.
- Cysoniad Banc – Ni chafodd cysoniad banc sy'n cytuno â'r ffigur a roddwyd ym mlwch 9 ei ddarparu gan y cyngor.
- Dim esboniad o amrywiannau ar gael - Nid yw'r cyngor yn gallu darparu esboniadau am yr amrywiannau yn y ffurflen flynyddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Llyfrau Cyfrifo priodol heb eu cynnal – Dylai'r Cyngor fod yn cadw cofnodion cywir o incwm a gwariant fel rhan o'i ddyletswyddau.
- Cofrestr Asedau – Nid oes gan y cyngor gofrestr asedau ac felly nid yw'n gallu cadarnhau cost prynu neu gost procsi, os nad yw'r pris prynu yn hysbys, o'r holl asedau sydd gan y cyngor ym mlwch 12.
- Cronfeydd wrth gefn – Mae balans y gronfa gyffredinol sydd gan y cyngor yn ymddangos yn uchel.
- Datganiad Llywodraethant Blynyddol – Arian Rhodd – Nid yw'r ffurflen flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn.
- Materion Bach – Nid yw ffigyrau cymharol a ddatgelir yn Adran 1 y ffurflen flynyddol yn cytuno a'r ffigyrau sydd wedi eu cymeradwyo gan yr awdit mewnol. Mae'r BDO wedi adolygu'r newidiadau sydd wedi eu gwneud ac mae'r BDO yn fodlon eu bod yn gywir.

Mae'r adroddiad llawn ar gael i unrhyw un sydd eisiau ei weld. Bydd hefyd yn cael ei osod ar Wefan Cyngor Tref Nefyn.

**8. Traethau**

Diweddariad gan Sian Hughes a Gruffydd Williams yn dilyn cyfarfod gyda'r Aelod Cabinet a swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod materion traethau 19/11/2018 – Trafodwyd rhwystr ar y traethau fel yr opsiwn mwyaf cost effeithiol i'r dyfodol. Mae hyn yn amlygu nifer o bryderon fel lle bydd yn cael eu gosod? Pwy sydd gyda mynediad? Ac ati.
Nid yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gwneud eu cyfraniad eto eleni ac mae'n beryg y bydd rhaid i'r prosiect fynd yn ei flaen heb fewnbwn yr ymddiriedolaeth genedlaethol. Mae hyn yn golygu ta'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn unig fydd yn gyfrifol am draeth Porth Dinllaen.
Bydd rhaid cael ymgynghoriad cyhoeddus a chyfreithiol cyn y gellir mynd ymlaen gyda'r prosiect.
Mae'n bosib y caiff arian yn ôl gan y Goron os felly bosib gellir cadw'r gwardeiniaid yn ystod amseroedd prysur.

**9. Llwybrau**

Llw Llwybr Cyhoeddus y Ddol – Mae angen draenio afon y Ddol, mae pridd o'r goedwig yn cael ei olchi i lawr o'r goedwig yn dilyn gwaith yno. Mae angen agor yr afon i fynnu yn iawn i nadu'r gorlif.
Mae Guto Williams yn cynnig (eilydd – Arfon Hughes) cael tendr gan gontractwyr arbenigol i wneud y gwaith, cytunwyd i wneud hyn.
Arfon Hughes – Mae yn bryderus am y sefyllfa gyda Gruffydd Williams yn ceisio agor llwybr cyhoeddus newydd ar dir Morheli ar dop Allt Gam. Nodwyd mai trac yn unig fu ar y safle yn cael ei ddefnyddio gan blant i fynd lawr. Mae Arfon Hughes yn nodi ei fod yn erbyn y ffordd mae hyn yn cael ei gynnal gan ei fod yn niweidiol i sefyllfa meinciau ar Lon Gam. Mae'r perchennog wedi gofyn am drafodaeth ac wedi ei wrthod. Os yw'n cael ei ddynodi bydd rhaid gwneud gwaith helaeth yw gwneud yn ddiogel yn cynnwys grisiau a rheiliau.

Gruffydd Williams – Llwybr Cyhoeddus ydi hwn gyda 35 o enwau yn nodi ei fod yn llwybr cyhoeddus hanesyddol gyda lluniau yn dyddio yn ôl i 1890au yn dangos y trac. Mae Gruffydd Williams yn bwriadu cyflwyno'r rhain i'r perchennog tir. Nodwyd bod ganddo dystiolaeth gadarnhaol gan Gyngor Gwynedd bod y Cyngor Tref hefo hawl i'r meinciau. Cytunwyd i yrru hwn ymlaen i'r Clerc. Nodwyd aelodau o'r pwyllgor bod eu rhieni oedrannus yn dal i ddefnyddio'r llwybr yma.

**10. Siop Siarad**

Mae'r Clerc yn diolch i bawb a ddaeth i helpu clirio yn y siop siarad ar ddydd Sadwrn 24/11/2018. Mae'r gwaith yn dod yn ei flaen yn dda.

Mae'n amserol i drafod Les y Siop Siarad gydag Arfon Hughes yn nodi ei fod wedi trafod gyda'r perchennog yn fodlon i gadw'r telerau'r un fath. Cynigwyd Sian Hughes (Eilydd – Bleddyn Evans) ein bod yn cadw at y cytundeb fel ac y mae gan fod y telerau yn ddigon teg. Mae'r cynnig yn llwyddiannus a chytunwyd i Rhys Tudur fynd dros y Les unwaith eto i gadarnhau.

**11. Gwynedd Digidol**

Mae gwaith cefndirol yn dal i fynd yn ei flaen. Mae Bleddyn Evans wedi trefnu hefo'r holl fusnesau sydd yn cael eu cynnwys yn y prosiect ac maent yn gytûn i fynd ymlaen ar waith.

Rydym yn disgwyl am ddiweddariad gan Fenter Môn a'r contractwyr i fynd ymlaen a'r gwaith.

**12. Morheli Nefyn**

Nid yw'r ymateb gan Un Llais Cymru yn ddigonol i drafod y mater.

**13. Lloches Bws**

Yn dilyn ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â threfnu lloches bws tu allan i'r Eglwys yn Nefyn mae'r Cyngor Tref yn nodi eu bod eisoes wedi trio cael lloches bws yn y fan yma. Mae cynnig Catrin Roberts (Eilydd – Sian Hughes) i holi Cyngor Gwynedd gyda'r posibilrwydd i leoli safle bws yn yr ardal yma yn llwyddiannus. Bydd y Clerc yn gweithredu.

Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn llythyr gan G T Williams ynglŷn â safle bws tu allan y ei datblygiad. Mae Sharon Williams yn cynnig (Eilydd – Gruffydd Williams) ein bod yn cysylltu hefo'r ymholydd i nodi nad yw hyn yn fater i'r Cyngor Tref. Bydd y Clerc yn gweithredu.

**14. Tir ymddiriedolaeth Nefyn**

Mae'r Cyngor Tref Wedi derbyn ymateb i lythyr gyrrwyd i gynnig derbyn baich yr ymddiriedolaeth. Mae'n nodi gydag diolch nad oes eisiau nac angen cymorth gyda'r tir. Darllenwyd y llythyr gan Catrin Roberts.

**15. Bin Halen**

Mae'r Clerc wedi trafod dros y ffon hefo Cyngor Gwynedd ynglŷn â'i cynnig i lenwi biniau halen yr ardal am ffi yn daladwy gan y Cyngor Tref i ofyn am ragor o wybodaeth;

| | |
|---|---|
| 1. Lle mae'r biniau halen? | Mae 6 bin yn ein hardal – Hafod Mynydd, Mynwent y Fron, Tan y Mynydd, Coed Mynydd, Cernigog a Lon Fawr Ddu. |
| 2. Pwy sydd yn llenwi'r biniau? | Cyngor Gwynedd. |
| 3. Ydi'r Cyngor Tref angen trwydded? | Na, nid oes angen trwydded. |
| 4. Be ydi'r amodau? | |
| 5. Ydi'r biniau yn cael eu llenwi ar gais y gymuned? | Nac ydi, dim ond y Cyngor Tref sydd gyda hawl i wneud cais i ail lenwi bin halen |
| 6. Cyfrifoldeb pwy yw'r biniau? | |

Mae Sian Hughes yn cynnig (Eilydd – Lleucu Jones) i'r Clerc ddilyn i fynnu gyda'r amodau hefo Cyngor Gwynedd gyda'r cwestiynau eto yn dilyn cyfarfod adran priffyrdd 12/12/2018 ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.

**16. Is-Pwyllgor Gweithgareddau**

Diweddariad gan Sharon Williams – roedd y goleuo yn llwyddiannus iawn gyda nifer yn mynychu. Roedd y ffordd wedi ei gau yn llwyddiannus gyda diolch i'r stiwardiaid.
Yn anffodus yn dilyn y plant yn canu aeth y dorf yn syth i'r ganolfan. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi rhoi eu hamser i'r trefniadau i gyd a bechod na chafod gyfle i wneud y canu torfol. Trafodwyd y buasai'n syniad i'r Cyngor Tref gymryd cyfrifoldeb y goleuo i'r dyfodol er hwylustod. Bydd yn cael ei drafod yn y pwyllgor gweithgareddau.
Nodwyd bod blodau wedi ei phlannu ar ran y Cyngor Tref gydag anfoneb wedi ei dderbyn drwy law.

**17. Cyllid 3-5 mlynedd**

Diweddariad gan Arfon Hughes – Nodwyd eto y bydd angen creu cynllun busnes 3-5 mlynedd i'r holl brosiectau sydd ar y preasept. Nodwyd bod y preasept wedi ei osod ar y funud i £65000 gyda'r gwahaniaeth yn dod o'r gronfa gefnogol. Bydd y ffurflen yn cael ei gytuno a'i gyrru yn dilyn cyfarfod mis Ionawr.

**18. Gwefan Cyngor Tref Nefyn a thudalen Facebook**

Mae Catrin Roberts eisiau trafod pryderon ar ran y Cadeirydd Rhys Tudur, Mae Rhys wedi gyrru e-bost ymlaen i Catrin ddarllen yn ystod y pwyllgor; mae'n nodi ei fod yn bryderus am ohebiaeth a bydd yn cael ei dderbyn dros dudalen Facebook ac yn nodi y bydd angen i'r hyn fod yn uniaith Gymraeg sydd yn gallu achosi trafferthion.
Mae aelodau'r pwyllgor hefyd yn bryderus am ddefnyddio Saesneg mewn dogfenau dwyieithog i gyfathrebu gyda'r cyhoedd gan fod ein polisi iaith yn gadarn.
Mae'r Clerc yn nodi nad oes modd i unrhyw berson oni bai'r clerc ysgrifennu ar y dudalen a dim ond y pethau sydd ar y wefan sydd yn cael ei gynnwys arno. Roedd hysbysiad swydd sydd eisoes wedi ei basio gan y pwyllgor sydd yn ddwyieithog wedi ei weld gan dros 600 o bobl ac roedd 4 ymgeisydd i'r seddi gwag. Nid yw'n faich gweinyddol gan ei fod yn ddyblygiad o'r wefan. Yr unig ffordd i gysylltu yw drwy e-bost, neu ffon i'r Clerc. Mae wedi derbyn un ohebiaeth o'r wefan.
Mae Catrin Roberts yn awyddus i gyd fynd gydag argymhelliad i waredu'r dudalen breifat facebook yn unol â dymuniad y cadeirydd. Mae Sian Hughes yn cynnig (eilydd Arfon Hughes) i gadw'r dudalen gan ei fod yn gwbl wahanol i dudalen personol ac yno i rannu gwybodaeth ffeithiol sydd wedi ei benderfynu gan y Cyngor Tref yn unig yw'r dudalen. Mae'r bleidlais yn methu gyda 6 yn erbyn a 5 o blaid.

**19. Llyfrgell**

Diweddariad gan Sharon Williams - Nodwyd y bydd angen tri phris i wneud gwaith adnewyddu i'r llyfrgell yn unol â'r cytundeb. Nodwyd y buasai'n syniad gwneud y gwaith yma cyn gynted â phosib at y gwanwyn. Mae Cyngor Gwynedd yn cadarnhau na fydd angen gwneud y gwaith yn flynyddol, bydd angen gwneud yn siŵr bod yr adeilad yn cael ei gadw mewn cyflwr rhesymol.
Nodwyd ei fod yn amserol i yrru gohebiaeth i ofyn am gyfraniad tuag at y Llyfrgell. Cynigwyd Glenda Rice (eilydd Sharon Williams) i Sharon Williams i drefnu llythyr drafft a'i chyflwyno i'r Clerc yw gyrru ymlaen i'r Cynghorau cyfagos.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

**Ceisiadau Cynllunio**

**C18/1002/42/LL**
Codi porth blaen, estyniad llawr ochr a chodi modurdy / storfa gwch yn nghefn yr ardd
Arddwen, Lon Isaf, Morfa Nefyn.
**Mae'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu ar sail gor ddatblygiad o'r safle.**
**Mae'r storfa gwch yn adeilad swmpus i'r defnydd y bwriedir.**

**C18/1033/42/LL**
Sied amaethyddol i gadw celfi a pheiriannau
Tir / Land Fferm Glasynys, Edern.
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0507/42/LL**
Adeiladu ty newydd
Tir ger Glascoed, Edern
**Dim Gwrthwynebiad**

**Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Rhagfyr 2018
2. **SLCC** - Bwletin Rhagfyr 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Rhagfyr 2018
4. **Local Council Update** – Rhagfyr 2018
5. **Un Llais Cymru -** Prosiect newydd y Sefydliad Materion Cymreig ar y cyd â'i bartneriaid yw Deall Llefydd Cymru
6. **Un Llais Cymru -** Cynhadledd am Ddim - Creu Cydweithrediad Rhwng Cymru a Gwlad y Basg
7. **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn** - gwahoddiad i weithdy ar ran.
8. **Un Llais Cymru** - Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol 2019
9. **Cyngor Gwynedd -** Holiadur toiledau cyhoeddus.
10. **Arloesi Gwynedd Wledig** - Strydoedd Mawr Gwynedd yn bryder i nifer o bobl, ond mae yn ceisio taclo'r her hwnnw gan ddefnyddio datrysiadau creadigol!
11. **Swyddfa Archwilio Cymru -** mae angen i gynghorau feddwl a gweithredu'n wahanol i gynnal gwasanaethau yn ardaloedd gwledig cymru.
12. **Cyngor Gwynedd –** Rhaglen waith Priffyrdd
13. **Un Llais Cymru -** Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor, Caernarfon 13/12/2018
14. **Comisiynydd Heddlu a Throsedd -** Deud eich deud am blismona.
15. **Arloesi Gwynedd -** Cronfa Peilota Gwynedd
16. **Un Llais Cymru -** Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 11/12/2018 Siop Siarad am 7yh

**Taliadau wedi eu gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Rhagfyr | **£797.57** |
| **Rhian Hughes-Jones –** Ad-daliad nwyddau | **£118.50** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£33.88** |
| **Cliff Hughes –** Contract 2017-2020 £825.00 | |
| Gwaith Ychwanegol – £264.32 | **£1089.32** |
| **Clerks and Council Direct –** Aelodaeth 2019 | **£12.00** |
| **Cyngor Gwynedd –** Llwybrau | **£6000.00** |
| **Cyngor Gwynedd –** Traethau | **£5000.00** |
| **Chris Jones – Coed Nadolig** | **£1500.00** |
| **Sads Uk** - Difibriliwr | **£340.00** |
| **Mr J G Jones** – Torrwr Beddi | |
| Anfoneb 17/11/2018 - £375.00 | |
| Anfoneb 17/11/2018 - £375.00 | **£750.00** |
| **Cymdeithas Rhieni Ysgol Nefyn** – Anrhegion Sion Corn | **£248.22** |
| **Npower** – Siop Siarad Cyfredol | **£30.86** |
| **Npower** – Siop Siarad Hanesyddol (BIG) | **£350.20** |

**Taliadau wedi eu derbyn**

| | |
|---|---|
| **Ifan Hughes** – Trefnwyr Angladdau | **£1400.00** |

**Ceisiadau am gyfraniad**

1. **LLYFRAU LLAFAR CYMRU** - Bob blwyddyn byddwn ni, yn Llyfrau Llafar Cymru yn recordio 50 o lyfrau Cymraeg a Saesneg fel y gall pobl sydd â nam ar eu golwg fwyhau pob math o lenyddiaeth.
2. **Nyrsys Marie Curie -** Mae'r holl arian sydd yn cael ei cyfrani yn cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie, felly gall y claf a teuluoedd yn y cymuned gael help gan eich rhodd.
3. **Prosiect Plas Carmel, Anelog –** Adfer hen adeilad capel unigryw a datblygu'r safle fel atyniad treftadaeth.
4. **Clwb Pel Droed Nefyn –** Ail doi cysgodfan.
5. **Dawns i Bawb**
6. **Theatr Bara Caws** - cais am gymhorthdal am y flwyddyn ariannol 2018/19

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf**

Morheli – Adrodd yn ôl gydag argymhelliad Un Llais Cymru

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737